**Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**

**EIN(2) 03-06(p.5)**

Dyddiad: 7 Mehefin 2006
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Bae Caerdydd
Teitl: Cylch Cynllunio'r Gyllideb : Prif Grwp Gwariant (MEG) Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Diben

1. Helpu'r Pwyllgor i ystyried pa gyngor i'w roi ar flaenoriaethu adnoddau yn 2007-08 yn unol â Rheol Sefydlog 21.2.

## Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn crynhoi arweiniad y Gweinidog Cyllid ar y sefyllfa ariannol o ran adnoddau ac yn pennu blaenoriaethau'r Adran MARh ar gyfer Cylch Cynllunio Cyllideb 2006.

## Yr amserlen

3. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid at Gadeirydd y Pwyllgor MARh ar 10 Mai 2006. Gwahoddir y Pwyllgor i ymateb yn uniongyrchol i'r Gweinidog MARh gan anfon copïau at y Gweinidog Cyllid erbyn 7 Gorffennaf 2006.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

4. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y blaenoriaethau ar gyfer defnyddio adnoddau yn 2007-08 ac a ddylid addasu'r cyllidebau yng ngoleuni amgylchiadau ac ymrwymiadau sy'n newid.

Pwynt Cyswllt: Uned Fusnes MARh - Mark Osland Est 8658
Grwp Polisi a Strategaeth MARh - Tracey Burke Est 8297

## Cylch Cynllunio'r Gyllideb : Prif Grwp Gwariant (MEG) Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

### Rhagarweiniad

1. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid at Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc ar 10 Mai 2006 i ofyn i'r Pwyllgorau ystyried eu blaenoriaethau ar gyfer defnyddio adnoddau yn 2007-2008, yn unol â Rheol Sefydlog 21.2.

2. Wrth ystyried y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, rhaid ystyried sefyllfa ariannol y Deyrnas Unedig. Gan fod adolygiad o wariant nesaf y DU wedi'i ohirio tan Orffennaf 2007, nid ydym yn rhagweld y cawn lawer o adnoddau yn ychwanegol at y gyllideb sydd eisoes wedi'i chyhoeddi ar gyfer 2007-2008. Bydd y Cylch Cynllunio hwn felly yn canolbwyntio ar gyllideb 2007-2008, sef blwyddyn olaf y cyfnod gwario a sefydlwyd gan SR2004.

3. Yn 2004, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad manwl o'i gwariant er mwyn cysoni'i chyllidebau ag amcanion strategol 'Cymru: Gwlad Well'. Cadarnhawyd y dyraniadau hyn yng Nghyllideb 2005. Fel yr esboniwyd yn Natganiad y Gyllideb llynedd, mae'n hanfodol bod o leiaf un y cant o Derfyn Gwariant pob Adran bob blwyddyn yn cael ei roi yn y Gronfa Wrth Gefn Ganolog i ariannu unrhyw argyfyngau anrhagweladwy a allai godi. Mae'n dilyn felly mai dim ond ychydig o arian newydd fydd yn cael ei ddyrannu i bortffolios yn 2007-2008 a bydd yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau amhosibl eu hosgoi sy'n gysylltiedig â rhaglenni a pholisïau presennol. I'ch helpu â'ch trafodaethau, amgaeir cyllideb ddrafft ddiweddaraf 2007-2008 yn Atodiad A.

4. Y ffactor fydd yn dylanwadu fwyaf yng nghylch y gyllideb hon fydd cael y gwerth gorau o'r adnoddau sy'n bod. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer 2007-2008 yn y cyd-destun hwn.

### Meysydd Polisi ym MEG Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

5. Bydd *Cymru: Gwlad Well* ac yn benodol ei hymrwymiadau o ran cyfiawnder cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, darparu gwasanaethau'n effeithiol ac effeithlon a thegwch a ffyniant, yn parhau i lywio gwaith Llywodraeth y Cynulliad.

6. Y fframwaith strategol newydd ar gyfer datblygu economi Cymru, *Cymru: Economi yn Ffynnu* sy'n pennu'r meysydd y mae angen i adnoddau'r cylch cyllido hwn eu targedu'n well. Mae'r fframwaith yn cynnig gweledigaeth ar gyfer economi lewyrchus sy'n sbarduno twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy roi cyfleoedd i bawb.

7. Blaenoriaethau *Cymru: Economi yn Ffynnu* yw sylfaen ein cynlluniau ar gyfer cyllideb 2007/08. Yn fras:

    1. Cael mwy fyth o bobl mewn gwaith

2. Codi ansawdd swyddi
3. Gwella'r amgylchedd y gall busnesau dyfu ynddo

8. Bydd yr argymhellion yn y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol drafft ar gyfer cylch nesaf Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn. Yn eu plith bydd gwella gwybodaeth ac arloesedd er hybu twf, creu amgylchedd ffafriol i fusnesau, adeiladu cymunedau cynaliadwy, cynyddu cyflogaeth a lleihau anweithgarwch a gwella lefelau sgiliau.

9. Ni fydd modd cyflawni'r blaenoriaethau hyn heb gydweithio, gan gynnwys cydweithio rhwng adrannau o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cabinet yn gytûn y dylid rhoi blaenoriaeth yn y cylch cynllunio cyllidebol hwn i gyd-geisiadau gan bortffolios gwahanol am gyfalaf, ac yn arbennig i'r rheini fydd yn esgor ar arbedion gwirioneddol yn y dyfodol. Bydd gofyn i'r cynigion ar gyfer cydweithio gadw o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol a darparu gwasanaethau / rhaglenni'n fwy effeithiol ac effeithlon. Ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer cydweithio rhwng portffolios yn Adran MARh yn 2007/08 y mae trechu anweithgarwch, symleiddio'r cymorth i fusnesau ac i sectorau, yn arbennig i'r sector adeiladu o gofio'r sialensau a'r cyfleoedd y mae trosglwyddo'r stoc dai yn eu cynnig.

10. Mae'r flaenoriaeth i gael y gorau o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer rhaglen 2000-2006 yn parhau wrth i'r rhaglen honno dynnu i'w therfyn.

11. Yn dilyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 a Deddf Rheilffyrdd 2005, mae gennym am y tro cyntaf y pwerau angenrheidiol i wireddu'r weledigaeth ar gyfer creu rhwydwaith trafnidiaeth effeithiol, integredig a chynaliadwy. Mae pethau'n mynd rhagddynt yn dda ond y flaenoriaeth fydd prysuro'r newid wrth i'r galw am deithio gynyddu a chyda chostau adeiladu'n codi'n gynt o lawer na chwyddiant.

12. Byddwn yn dal i roi blaenoriaeth i weithgareddau adfywio wedi'u targedu, er enghraifft ein cynlluniau i adfywio Blaenau'r Cymoedd. Enghraifft arall yw 'Dal y Don' - ein Strategaeth ar gyfer Chwaraeon Dwr - ar y cyd ag awdurdodau lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y sector preifat a rhanddeiliaid eraill.

13. Bydd annog arloesedd yn parhau'n hanfodol i godi ansawdd swyddi yng Nghymru. Ymhlith y camau penodol y byddwn yn eu cymryd fydd defnyddio gwybodaeth a syniadau'r sectorau academaidd a phreifat i sbarduno twf busnesau.

14. Mae ynni'n parhau'n bwnc sy'n cael blaenoriaeth gyda meysydd pwysig fel buddsoddi yn nhwf ynni adnewyddadwy ac arbed ynni.

**Creu'r Cysylltiadau: Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau**

15. Fel rhan o'r gwaith, mae'r Gweinidog Cyllid wedi gofyn i aelodau'r Cabinet chwilio am ffyrdd i wella effeithiolrwydd yn 2007/08 mewn cysylltiad â *Creu'r Cysylltiadau* ac i ailgyfeirio unrhyw arbedion ariannol a ddaw yn sgil hynny er lles meysydd sy'n cael blaenoriaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad i wella effeithiolrwydd. O fewn MARh, dyma'r prif ystyriaethau:

- Mae model newydd ar gyfer helpu busnesau yn cael ei ddatblygu. Bydd hynny'n cynnwys dulliau symlach a mwy effeithiol o ddatblygu busnesau a ffordd newydd o reoli cyfrifon fydd â chysylltiad clos â'r Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau.

- Mae camau breision yn cael eu gwneud i ddatblygu gwedd ranbarthol effeithiol ar gynllunio a darparu trafnidiaeth.

- Arbedion trwy wella effeithiolrwydd, law yn llaw â'r manteision a ddaw yn sgil yr uno.  Yn eu plith:

    - ❖ Un man cyswllt â chwsmeriaid, gyda rheolwyr cyfrifon penodol i helpu cwsmeriaid i fanteisio ar yr holl wasanaethau sydd ar gael.
    - ❖ Darparu gwasanaethau cyn agosed â phosibl at ein cwsmeriaid trwy'n swyddfeydd rhanbarthol, er mwyn ymateb i anghenion, cyfleoedd a hynodion lleol yn well.
    - ❖ Dod â grantiau cyfalaf (RSA, AIG, Grant Twristiaeth Adran 4, SMART Cymru, Grant Datblygu Eiddo) o dan unto Buddsoddi Cymru, gyda Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru i ystyried prosiectau buddsoddi. Yr amcan yw creu un gronfa fuddsoddi hyblyg i fusnesau.
    - ❖ Ad-drefnu ymhellach y rhaglenni cymorth busnes yn un gronfa arbenigol o gymorth fydd yn ddigon hyblyg i allu caffael oddi wrth y sector preifat.
    - ❖ Elwa ar synergïau o ddod â MasnachCymru Rhyngwladol ac Is-adran Ryngwladol y WDA ynghyd i greu'r is-adran Fasnach a Buddsoddi gyda swyddfeydd tramor cytûn.
    - ❖ Dod â holl weithgareddau marchnata'r WDA ynghyd o dan adain Twristiaeth a Marchnata.
    - ❖ Yn ogystal, mae'r Strategaeth Cyllido Eiddo wedi sbarduno cynnydd sylweddol mewn datblygu eiddo, yn unol â gofyn y Strategaeth Eiddo, heb olygu mwy o wariant i'r Cynulliad.

**Y safbwyntiau a geisir**

16. Cael y gorau posibl o'r adnoddau sydd eisoes yn bod fydd yr ystyriaethau bwysicaf yng nghylch y gyllideb hon a gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer 2007 - 2008 ar sail hynny.

17. Ystyried y blaenoriaethau hyn fydd cam cyntaf cynllunio Cyllideb 2007 - 2008. Bydd y Gweinidog Cyllid yn rhoi'r Gyllideb ddrafft gerbron ym mis Hydref 2006.

18. Bydd gofyn i'r Gyllideb adlewyrchu'r newidiadau yn adeiladwaith y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad wedi i Fesur Llywodraeth Cymru gael Cydsyniad y Frenhines. Mae grwp gorchwyl a gorffen ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn edrych ar y ffordd y mae Rheol Sefydlog 21 yn gweithio, hynny i baratoi ar gyfer y newidiadau a ddaw yn sgil y Mesur.

**Andrew Davies**
**Y Gweinidog**
**Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**

Pwynt Cyswllt: Uned Fusnes MARh - Mark Osland Est 8658
Grwp Polisi a Strategaeth MARh - Tracey Burke Est 8297

**Atodiad A - Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2007/08**

Gwybodaeth i ddilyn

## Atodiad A

| ENTERPRISE, INNOVATION & NETWORKS - MAIN EXPENDITURE GROUP BUDGET | | |
|---|---|---|
| **REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | |
| **Budget Expenditure Line** | **2006-07 Final Budget** | **2007-08 Indicative Budget** |
| Innovation, Design and Technology - Revenue | 10,884 | 10,884 |
| Energy and Environment | 5,520 | 6,370 |
| Economic Research and Evaluation | 645 | 645 |
| Innovation & Competetiveness - Revenue | 21,391 | 21,391 |
| Knowledge Exploitation Fund | 9,500 | 9,500 |
| Finance Wales | 6,400 | 6,400 |
| **Innovation and Competitiveness** | **54,340** | **55,190** |
| Entrepreneurship - Revenue | 20,562 | 21,512 |
| Finance Wales | 0 | 0 |
| **Entrepreneurship** | **20,562** | **21,512** |
| Public Sector Network | 0 | 0 |
| e Wales Research and Evaluation | 1,020 | 1,020 |
| Broadband Telecommunications | 14,680 | 12,680 |
| Broadband Telecommunications Depreciation and Cost of Capital | 282 | 282 |
| **Telecommunications Infrastructure** | **15,982** | **13,982** |
| Property Related Infrastructure - Revenue | -7,000 | -7,000 |
| Property Related Infrastructure - Revenue | 6,274 | 6,274 |
| Depreciation / Cost of Capital | 32,059 | 32,059 |
| Provisions | 1,100 | 1,100 |
| **Property Related Infrastructure** | **32,433** | **32,433** |
| Regeneration Support - Revenue | 978 | 978 |
| Transfers from Local Government to CBDC - Revenue | 10,166 | 10,166 |
| Regeneration Packages - Revenue | 4,000 | 1,000 |
| **Regeneration Packages** | **15,144** | **12,144** |
| International Trade | 6,478 | 6,478 |
| International Relations | 1,381 | 1,381 |
| Miscellaneous European Support Services | 261 | 261 |
| Domestic and International Investment | 13,863 | 16,026 |
| **Domestic and International Business Promotion** | **21,983** | **24,146** |
| RSA - Projects and Business Improvement Support | 241 | 241 |
| WTB Current Expenditure | 500 | 500 |
| **Support for Employment Creation** | **741** | **741** |
| WTB Current Expenditure | 13,524 | 13,524 |
| WTB Current Receipts | -400 | -400 |
| WTB Depreciation/Cost of Capital | 215 | 215 |
| **Tourism Promotion** | **13,339** | **13,339** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Winning Wales - Project Budget | 625 | | 625 |
| Pathway to Prosperity Fund Match Funding Revenue | 12,215 | | 12,215 |
| Euro Facilitators | 500 | | 500 |
| Local Authority Projects - March Funding Revenue | 1,250 | | 1,250 |
| | | | |
| **European Match Funding** | **14,590** | | **14,590** |
| | | | |
| European Regional Development Fund | 60,676 | | 61,026 |
| European Social Fund | 71,895 | | 71,895 |
| European Structural Funds Programme Support | 779 | | 779 |
| FIFG | 1,684 | | 1,684 |
| EAGGF | 13,981 | | 15,631 |
| Structural Funds Partnership | 725 | | 1,225 |
| | | | |
| **European Funding** | **149,740** | | **152,240** |
| | | | |
| Design, Build and Operate Roads: Shadow Tolls | 16,000 | | 16,000 |
| Routine Maintenance | 28,900 | | 28,900 |
| Programme Support (Maintenance) | 1,915 | | 1,915 |
| Roads Depreciation and Impairments | 150,168 | | 150,168 |
| | | | |
| **Maintaining the Trunk Road Network** | **196,983** | | **196,983** |
| | | | |
| Studies - Revenue | 51 | | 51 |
| Purchase of Land and Buildings (including costs of transfer of ownership) | 185 | | 185 |
| Programme Support - New Constructiona and Improvement | 1,256 | | 1,256 |
| Receipts | -380 | | -380 |
| | | | |
| **Improving the Trunk Road Network** | **1,112** | | **1,112** |
| | | | |
| Revenue Support - Rail and Air | 3,620 | | 3,770 |
| | | | |
| **Improving Rail and Air Services** | **3,620** | | **3,770** |
| | | | |
| Programme Support - Local Transport | 2,020 | | 2,020 |
| Bus Revenue Support | 27,774 | | 29,324 |
| Concessionary Fares | 38,448 | | 40,648 |
| | | | |
| **Improving Integration and Delivery of Local Transport** | **68,242** | | **71,992** |
| | | | |
| Programme Support - Road Safety | 363 | | 363 |
| | | | |
| **Imroving Road Safety** | **363** | | **363** |
| | | | |
| Environment Improvement Schemes | 2,425 | | 2,425 |
| | | | |
| **Improving the Quality of the Local Environment** | **2,425** | | **2,425** |
| | | | |
| Walking and Cycling - Revenue Support | 90 | | 90 |
| | | | |
| **Supporting Walking and Cycling** | **90** | | **90** |
| | | | |
| **Total Resources - Enterprise, Innovation & Networks** | **611,689** | | **617,052** |

| CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit | | |
|---|---|---|
| **Budget Expenditure Line** | **2006-07 Final Budget** | **2007-08 Final Budget** |
| | | |
| Innovation Design and Technology - Investment | 8,000 | 10,200 |
| Innovation Design and Technology - Capital | 8,000 | 0 |
| Innovation and Competitiveness - Capital | 430 | 430 |
| | | |
| **Innovation and Competitiveness** | **16,430** | **10,630** |
| | | |
| RSA projects and Business Improvement Support - Investment | 11,748 | 11,748 |
| NLF/PDC - Entrepreneurship Investment | 1,000 | 1,000 |
| | | |
| **Entrepreneurship** | **12,748** | **12,748** |
| | | |
| Telecommunications Infrastructure Investment | 3,056 | 3,056 |
| | | |
| **Telecommunications Infrastructure** | **3,056** | **3,056** |
| | | |
| Property Related Infrastructure - Capital | 12,523 | 12,523 |
| Property Related Infrastructure - Investment | 20,352 | 20,352 |
| Property Related Infrastructure - Capital Receipts | -5,000 | -5,000 |
| Property Related Infrastructure - Investment Receipts | -13,000 | -13,000 |
| | | |
| **Property Related Infrastructure** | **14,875** | **14,875** |
| | | |
| Regeneration Support - Capital | 29,544 | 29,544 |
| Regeneration Support - Investment | 7,671 | 7,671 |
| Transfers from Local Government to CBDC - Capital | 5,653 | 5,653 |
| Regeneration Packages - Investment | 1,500 | 0 |
| Regeneration Packages - Capital | 15,000 | 17,000 |
| | | |
| **Regeneration Packages** | **59,368** | **59,868** |
| | | |
| RSA Projects and Business Improvement Support | 50,236 | 50,236 |
| WTB Capital Expenditure Investment | 3,550 | 3,550 |
| | | |
| **Support for Employment Creation** | **53,786** | **53,786** |
| | | |
| A Winning Wales - Project Budget Investment | 40 | 40 |
| Pathway to Propserity Fund - Match Funding Investment | 3,360 | 3,360 |
| Pathway to Prosperity - Match Funding Capital | 3,425 | 3,425 |
| Local Authoruity Projects - Match Funding Capital | 32,338 | 32,338 |
| | | |
| **European Match Funding** | **39,163** | **39,163** |
| | | |
| European Regional Development Fund - Investment | 80,537 | 53,241 |
| European regional Development Fund Capital | 3,185 | 30,131 |
| EAGGF - Investment | 1,650 | 0 |
| EAGGF - Capital | 250 | 250 |
| | | |
| **European Funding** | **85,622** | **83,622** |
| | | |
| Repair and Strengthening Programme | 7,592 | 7,592 |
| Renewal of Roads and Bridges | 27,800 | 27,800 |
| Purchase of Vehicles and Equipment | 370 | 370 |
| | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Maintaining the Trunk Road Network** | **35,762** | | **35,762** |
| | | | |
| Studies - Capital | 1,000 | | 1,000 |
| New Construction and Improvement Programme | 56,820 | | 61,683 |
| Upgrade Programme | 9,406 | | 9,406 |
| Purchase of Land and Buildings (including costs of transfer of ownership) | 7,030 | | 7,030 |
| Receipts | -890 | | -890 |
| | | | |
| **Improving the Trunk Road Network** | **73,366** | | **78,229** |
| | | | |
| Rail and Air Investment | 12,178 | | 12,178 |
| Rail and Air Capital | 8,100 | | 21,600 |
| | | | |
| **Improving Rail and Air Services** | **20,278** | | **33,778** |
| | | | |
| Capital Grants (Local Roads) | 60,043 | | 52,443 |
| Roads - General Capital Funding | 19,809 | | 19,809 |
| | | | |
| **Improving Local Roads** | **79,852** | | **72,252** |
| | | | |
| Capital Grant (Local Transport) | 20,700 | | 15,200 |
| | | | |
| **Improve Integration and Delivery of Local Transport** | **20,700** | | **15,200** |
| | | | |
| Trunk Road s - Road Safety Improvement Schemes | 4,401 | | 4,401 |
| Capital Grants - Road Safety | 8,150 | | 8,150 |
| | | | |
| **Improving Road Safety** | **12,551** | | **12,551** |
| | | | |
| Environmental Improvement Schemes | 1,650 | | 1,650 |
| | | | |
| **Improving the Quality of the Local Environment** | **1,650** | | **1,650** |
| | | | |
| Trunk Roads Cycling Infrastructure Schemes | 3,900 | | 3,900 |
| Capital Grants - Walking and Cycling | 5,600 | | 4,100 |
| | | | |
| **Supporting Walking and Cycling** | **9,500** | | **8,000** |
| | | | |
| **Total Capital - Enterprise, Innovation & Networks** | **538,707** | | **535,170** |

**Resource Budget - Annually Managed Expenditure**

| **Budget Expenditure Line** | **2006-07 Final Budget** | | **2007-08 Final Budget** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Roads - Cost of Capital | 322,000 | | 333,000 |
| | | | |
| **Maintianing the Trunk Road Network** | **322,000** | | **333,000** |
| | | | |
| **Total Resource - Annually Managed Expenditure** | **322,000** | | **333,000** |

| Enterprise, Innovation and Networks - Summary | 2006-07 Final Budget | | 2007-08 Final Budget |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Revenue DEL | 611,689 | | 617,052 |
| Capital DEL | 538,707 | | 535,170 |
| **Total DEL** | **1,150,396** | | **1,152,222** |
| | | | |
| **Annually Managed Expenditure** | 322,000 | | 333,000 |
| | | | |
| **Total Enterprise, Innovation and Networks** | **1,472,396** | | **1,485,222** |